Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Blaenau
**Blaenau**
**Rhydaman**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3BQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Blaenau yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i lleoli ym mhentref Blaenau ger Rhydaman ac mae'n gwasanaethu pentrefi Blaenau a Chaerbryn. Daw o dan ofal awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae 55 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 5 disgybl oed meithrin amser llawn. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau tymor eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r ysgol wedi ei threfnu'n dri dosbarth oedrannau cymysg.

Daw 38% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae tua 3.6% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2009, ac mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Blaenau yn 2015-2016 yw £3,766. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Gynradd Blaenau yn y 36ain safle o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn
- rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn briodol
- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2
- medrau rhifedd llawer y disgyblion yn datblygu'n gadarn yn ystod gwersi mathemateg
- rhan fwyaf y disgyblion yn llawn cymhelliant, yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd, ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol gan adeiladu arno'n llwyddiannus
- staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant o brofiadau dysgu amrywiol
- ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gadarn

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent
- nid yw gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn ddigon datblygedig
- mae cyfraddau presenoldeb yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg
- prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn dylanwadu a gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu
- prin yw'r cyfleoedd o fewn y cynllunio i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd, ysgrifennu estynedig a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn drawsgwricwlaidd
- nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ymateb i sylwadau athrawon er mwyn gwella gwaith eu hunain

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion
- llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol
- ganddi weithdrefn huanarfarnu briodol sy'n cynnwys gweithgareddau monitro a dadansoddi data, arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion a holiaduron i randdeiliaid
- rolau'r staff a'r llywodraethwyr yn eu galluogi i gyfrannu'n well at y broses hunanarfarnu
- y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau

Fodd bynnag:

- er bod adroddiadau monitro yn ddadansoddol, nid ydynt yn nodi'n ddigon penodol effaith unrhyw weithgareddau ar safonau a ddarpariaeth
- nid yw blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys meysydd pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw ar fyrder
- nid yw gweithdrefnau'r ysgol, hyd yma, wedi cael effaith lawn ar wella ansawdd y ddarpariaeth na safonau cyrhaeddiad

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau presenoldeb

A2 Cynllunio mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd, ysgrifennu estynedig a TGCh ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod athrawon yn cynnig her gyson i ddisgyblion mwy abl

A4 Gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion a sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymateb i adborth athrawon er mwyn gwella eu gwaith

A5 Mireinio gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg neu ychydig yn is na'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol ac yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Maent yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn briodol. Er hynny, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn hyderus i'w hathrawon a'u cyfoedion wrth drafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer drafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig, gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y dasg. Mae hyn yn datblygu ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r mwyafrif yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y ddwy iaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn adnabod seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau o oedran cynnar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon gan gymryd sylw addas o atalnodi a defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Er hynny, dim ond ychydig sy'n dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion ddarllen yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae ychydig ar frig yr ysgol yn defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus wrth gywain gwybodaeth.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn medru ysgrifennu ystod o frawddegau amrywiol, gan sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir a defnyddio atalnodi yn lled effeithiol. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n effeithiol i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur Mari Jones yn ystod ei thaith i'r Bala. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn y ddwy iaith. Gall llawer atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn addas yn ôl eu gallu, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd am gêm rygbi yn Stadiwm y Mileniwm. Er hynny, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn ddigon datblygedig ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion mwy abl eu gallu yn cyflawni i'r safon sy'n cyfateb i'w potensial bob amser. Yn gyffredinol, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Maent yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau o fewn yr ardaloedd dysgu. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer o

ddisgyblion gymhwyso'u medrau i ddatrys problemau adio, tynnu, lluosi a rhannu yn gywir. Maent yn casglu data a'i gofnodi mewn ffurf graff, er enghraifft wrth ddarganfod hoff ffrwyth disgyblion y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn ystod gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfain gyda degau a channoedd yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer ddealltwriaeth drwyadl o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol, mae'r disgyblion hyn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n briodol ar ffurf tablau a graffiau. Er hynny, prin iawn yw'r esiamplau gan ddisgyblion o gymhwyso medrau rhifedd i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig yn dangos tuedd cyffredinol o welliant.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol. Yn y Gymraeg, mae perfformiad disgyblion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, ar y deilliannau / lefelau uwch, mae perfformiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gyffredinol yn gyson o dan y canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg ym mhob dangosydd.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad merched o'i gymharu â'r bechgyn ar y deilliannau disgwyliedig nac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r darlun ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy anghyson o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ac uwch yn y pedwar pwnc a asesir dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn erbyn eu targedau personol.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn. Mae hyn yn gwneud cymariaethau â disgyblion eraill yn amhriodol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes unrhyw beth yn eu poeni. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn synhwyrol er mwyn cadw'n iach. Mae llawer yn mynychu gweithgareddau allgyrsiol fel y 'Clwb Ffrindiau' sy'n codi eu hymwybyddiaeth o ffitrwydd corfforol yn llwyddiannus.

Mae safonau ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn gyson dda. Maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, ac yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr.

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn llawn cymhelliant, yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd, ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol, gan adeiladu arno'n llwyddiannus. Er hynny, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn dylanwadu a gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae'r aelodau yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn teimlo bod ganddynt gyfle i leisio barn a chynnig syniadau. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad tuag at greu gardd goffa a dewis adnoddau i ddatblygu ffitrwydd disgyblion yn ystod amseroedd egwyl. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd, ac mae disgyblion hŷn yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft yn eu rôl fel bydis chwarae yn gofalu am ddisgyblion iau'r ysgol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson o dan y canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae llawer o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau amrywiol sy'n cwrdd yn briodol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau dilyniant yn y profiadau dysgu o fewn y dosbarthiadau oedran cymysg. Mae ymweliadau niferus y tu allan i'r ysgol yn cyfrannu'n effeithiol i ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu hyn ymhellach.

Mae'r athrawon wedi dechrau ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol yng nghynlluniau'r ysgol, yn enwedig mewn ymholiadau gwyddonol ar frig yr ysgol. Er hynny, prin yw'r cyfleoedd o fewn y cynllunio i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd, ysgrifennu estynedig na TGCh yn drawsgwricwlaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau buddiol sy'n hyrwyddo a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes, diwylliant, dathliadau a thraddodiadau Cymreig yn dda. Enghraifft o hyn yw'r ymweliad â Chastell Carreg Cennen fel rhan o waith thema ar yr ardal leol. Mae ymweliadau gan enwogion o'r byd chwaraeon Cymreig hefyd yn hyrwyddo'n llwyddiannus falchder y disgyblion yn eu Cymreictod.

Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol ddealltwriaeth y disgyblion o addysg gynaliadwy drwy themâu dosbarth sy'n cael eu hyrwyddo ymhellach gan waith y cyngor eco, er enghraifft wrth annog y disgyblion i ailgylchu ac arbed ynni o fewn yr ysgol. Er hynny, prin iawn yw'r cyfleoedd a gaiff eu cynllunio i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang drwy astudiaethau o wledydd eraill.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gadarn ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion sy'n creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu priodol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion. O fewn yr ystafell ddosbarth, cefnogir y disgyblion yn effeithiol gan y cynorthwywyr dysgu. Mae'r holl staff yn modelu iaith safonol yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at

gryfhau iaith lafar y disgyblion. Mae athrawon yn holi'n fedrus, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol. Mewn tua hanner y gwersi mwyaf effeithiol, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio'n addas ar gyfer disgyblion o allu gwahanol. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae’r athrawon yn gor-arwain y disgyblion, sy’n cyfyngu ar eu gallu i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Yn y gwersi hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon llwyddiannus.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn gyson. Er hynny, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon effeithiol i osod targedau heriol wrth gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n lled gadarn yn yr ysgol ac mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Mae bron pob athro yn rhannu amcanion dysgu addas â’r disgyblion ar ddechrau’r wers, ond yn y rhan fwyaf o’r gwersi, nid ydynt yn ddigon miniog i herio’r disgyblion mwy abl. Mae sylwadau'r athrawon yn cynnig adborth addas i ddisgyblion, gan nodi beth y maent wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Er hynny, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i'r sylwadau er mwyn codi safonau nac ar gyfer asesu gwaith eu cyfoedion. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau ar y meysydd dysgu a phynciau’r cwricwlwm, gan gynnig gwybodaeth fuddiol iddynt ar gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r staff yn hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol drwy gynnig ystod o weithgareddau chwaraeon yn ystod y dydd ac yn allgyrsiol. Er enghraifft, annog disgyblion hŷn i dderbyn cyfrifoldeb dros hyfforddi'r rhai iau mewn gemau pêl yn ystod amser cinio. Mae’r ysgol yn darparu’n llwyddiannus ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae gwasanaethau addoli a’r ymweliadau wythnosol gan y ficer yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi disgyblion, athrawon a rhieni, pan fo angen. Er enghraifft, mae’r heddlu’n cydweithio’n agos â’r ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth yr holl ddisgyblion am faterion e-ddioglewch. Mae’r holl gydweithio hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a lles disgyblion. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn adnabod anghenion addysgol disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth buddiol ar eu cyfer. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau clir ar gyfer gwelliant. Caiff y rhain eu rhannu â’r rhieni sy’n sicrhau bod cydweithio llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cartref. Trwy asesiadau cyson, mae’r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â’u targedau ac yn gwneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus yn yr ysgol. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a thrwy hynny fagu

agwedd o barch a hunanhyder. Mae gweithdrefnau effeithiol yn bodoli ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais ac mae gan bob disgybl hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r ddarpariaeth.

Mae adnoddau addas ar gael i gyflwyno pob agwedd o'r cwricwlwm. Er bod yr adeilad yn hen, mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r gofod sydd ar gael. Mae amgylchedd y dosbarthiadau yn cynnwys nifer o arddangosfeydd pwrpasol gan yr athrawon i gefnogi dysgu. Er hynny, prin yw'r enghreifftiau o waith y plant a gaiff eu harddangos. Nid oes cae chwarae ar dir yr ysgol ond mae'r buarth wedi'i rannu'n ardaloedd chwarae pwrpasol ac mae'r ysgol yn defnyddio ardal allanol y cylch meithrin lleol yn briodol i gyflawni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae adeilad a thir yr ysgol yn lân ac yn ddiogel. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n ddiweddar i ehangu adnoddau allanol i'w defnyddio i gyfoethogi amseroedd egwyl y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un weledigaeth. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi sefydlu strategaethau addas i fynd i'r afael â diffygion mewn agweddau pwysig ar les disgyblion, y ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol; er enghraifft, gweithredu gweithdrefnau penodol i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymglymiad disgyblion i'w gwaith. Er hynny, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gweithredu ar safonau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau'r staff yn ddiweddar, ac mae gan bawb gyfrifoldebau priodol a swydd ddisgrifiadau clir. Cynhelir cyfarfodydd staff yn gyson ac maent yn rhoi sylw cynyddol i drafod datblygiadau ym mlaenoriaethau'r ysgol. Er hynny, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o ffocws ar werthuso cynnydd disgyblion nac effaith penodol strategaethau newydd ar y ddarpariaeth.

Mae gweithdrefn rheoli perfformiad yn ei lle ac yn herio staff i ddatblygu a gwella eu harfer trwy osod targedau pwrpasol sy'n cyd-fynd â'r cynllun datblygu. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol; er enghraifft, mae wedi cychwyn mapio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar draws agweddau o'r meysydd dysgu a phynciau'r cwricwlwm.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Mae dealltwriaeth gadarn ganddynt o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. Yn fwy diweddar, maent wedi dechrau edrych ar agweddau penodol o'r ddarpariaeth drwy gyflawni teithiau dysgu ac arsylwi gwersi. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn well am ei pherfformiad a ac i gyfrannu'n fwy effeithiol at y broses hunanarfarnu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefn huanarfarnu briodol sy'n cynnwys gweithgareddau monitro a dadansoddi data, arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion a holiaduron i randdeiliaid. Mae wedi datblygu rolau'r staff a'r llywodraethwyr yn ddiweddar, i'w galluogi i gyfrannu'n well at y broses. Fodd bynnag, er bod adroddiadau monitro yn ddadansoddol, nid ydynt yn nodi'n ddigon penodol effaith unrhyw weithgareddau ar safonau a ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar y wybodaeth sy'n deillio o'r broses er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad, er enghraifft trwy godi safonau'r disgyblion mwy abl a'r gyfradd presenoldeb. Mae'r adroddiad hunanarfarnu, fodd bynnag, er ychydig yn ddisgrifiadol, yn rhoi darlun lled briodol o nifer o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys nifer rhesymol o dargedau ynghyd â chyfrifoldebau, costau a dangosyddion llwyddiant. Er hynny, nid yw'r blaenoriaethau'n ystyried yr holl feysydd pwysig sydd angen mynd i'r afael â nhw. Nid ydynt bob amser yn ddigon penodol na'r dangosyddion llwyddiant yn ddigon meintiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw gweithdrefnau'r ysgol, hyd yma, wedi cael effaith lawn ar wella ansawdd y ddarpariaeth na safonau cyrhaeddiad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol llwyddiannus. Mae'r rhieni yn gefnogol ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Mae cymdeithas Ffrindiau Ysgol y Blaenau yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus sy'n codi swm sylweddol o arian yn flynyddol ar gyfer cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Enghreifftiau da o hyn yw talu am fysiau i gludo'r disgyblion ar deithiau addysgol a phrynu adnoddau perthnasol i wella eu ffitrwydd.

Mae cyswllt cryf yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd wedi ei lleoli yn yr adeilad. Mae hyn yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd, sy'n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth o'r sector cynradd i'r uwchradd. Mae'r cydweithio effeithiol a geir rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd ar safoni a chymedroli gwaith yn sicrhau cywirdeb eu hasesiadau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion lleol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd staff. Enghraifft dda o hyn yw defnyddio arbenigeddau staff o ysgol gyfagos i fodelu ymholiadau gwyddonol effeithiol i ddisgyblion hŷn yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau ymchwiliol y disgyblion hyn yn datblygu'n dda. Mae hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i uwchsgilio'r athrawon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgu a lles y disgyblion.

Mae cysylltiadau agos rhwng yr ysgol â'r gymuned leol, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol fel gwasanaeth Nadolig a pharti Dydd Gŵyl Dewi i'r henoed. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd perthyn i'w cymuned.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff a gwna ddefnydd addas o'u harbenigedd i ddarparu ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion hyfforddiant staff yn briodol trwy brosesau rheoli perfformiad ac mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn bwrpasol. Mae hyfforddiant staff yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi'r addysgu. Mae rhwydweithiau priodol o arfer broffesiynol gyda thriawd o ysgolion lleol, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar welliannau yn y ddarpariaeth ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion mewn meysydd fel gwyddoniaeth a'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cefnogi disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim drwy weithredu rhaglenni sy'n targedu eu medrau cymdeithasol. Mae'r rhaglenni hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau gweithio'n annibynnol a chydweithio'r disgyblion. Mae amrediad addas o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio'n briodol i helpu'r holl ddisgyblion i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn wynebu sefyllfa eithriadol o heriol o ran ceisio rheoli cyllid yr ysgol. Drwy gydweithio agos â'r awdurdod lleol, mae cynllun addas ar waith i ddeilio â'r sefyllfa.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692052 - Ysgol Gynradd Blaenau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 64 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 14 | 8 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 75.0 | 78.6 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 14 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 78.6 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 25.0 | 18.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 14 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 78.6 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 14.3 | 50.0 | 18.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 14 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 92.9 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 0.0 | 62.5 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692052 - Ysgol Gynradd Blaenau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 64 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 17 | 9 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 71.4 | 94.1 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 9 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 94.1 | 77.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 9 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 42.9 | 58.8 | 44.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 9 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 94.1 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 9 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 94.1 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 30 | 30 100% | 0 0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 32 | 32 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 32 | 32 100% | 0 0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 32 | 32 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 32 | 32 100% | 0 0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 32 | 30 94% | 2 6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Edna Davies | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.